

Cofnodion Cyfarfod 04-06-19 – 7.30pm

Presennol Cyngorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Arthur Williams, Gwenan Roberts, Gwilym Williams, Geraint Owen a Delyth Wynne (Clerc)
Aled Meredith a Shirley Huws (Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol)

Ymddiheuriadau Cyngorwyr Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase ac Austin Roberts

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorwyr i'r cyfarfod a Geraint Owen i'w gyfarfod cyntaf fel Cyngorydd. Cyng Geraint wedi derbyn copi o'r côd ymddygiad a wedi llofnodi y ffurflen 'Datganiad Derbyn Swydd'.

2. YMDDIHEURIADAU

Gweler uchod.

3. DATGAN DIDDORDEB

Dim.

4. COFNODION – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (07/05/19).

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng John ac eiliwyd gan Cyng Arthur.

5. MATERION YN CODI

• **Canllaw Argyfwng Cymunedol – Aled Meredith a Shirley Huws:**

Mae 4 peilot wedi bod a mae'r canllaw angen ei ddiweddarau. Mae'r canllaw ar gael os ydy cyngorau yn gofyn am gymorth. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ganllawiau ar gyfer prif afonau - y Cadeirydd i gysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gopi o'r canllawiau. Aled Meredith a Shirley Huws i gael rhagor o wybodaeth os ydy bagiau tywod ar gael mewn argyfwng.

Cyngorwyr yn gweld y canllaw yn werth ei ystyried.

• **Polyn Banner:**

Y Cadeirydd i siarad gyda Gwyn Williams i weld beth sydd yn bod gyda'r polyn a'r fanner.

Angen ychwanegu'r polyn banner a'r hysbysfwrdd i'r asesiadau risg.

Y Clerc i holi CBSC os oes ydynt yn medru archwilio'r polyn ar gyfer iechyd a diogelwch.

- **Set Coffa Bryn Hir:**
Cyng Gwen wedi siarad efo Dave a Chris Martin. Dave a Chris yn fodlon ei drwsio ond yn gofyn am gyfraniad tuag at adnewyddu'r pren.
Cyng Arthur yn cynnig rhoi fyny tuag £100, Cyng John yn eilio. Gofyn iddynt yrru anfoneb am y gwaith.
- **Sgip Cymunedol:**
Bydd y sgip yn y pentref at 20 Gorffennaf. Y Cadeirydd wedi ysgrifennu darn i roi ar 'Facebook' i egluro'r sefyllfa.
- **Conwy Cynhaliol:**
Offer Casglu sbwriel wedi cyrraedd. Cyng John wedi rhoi yr offer i Uta.
- **Tyllau ar Ffordd Maenan:**
Dim diweddariad.
- **Mainc er cof am Cyng Emlyn Davies:**
Mainc wedi ei drwsio.
- **Wal wedi disgyn ar ôl Bodnod:**
Wal wedi ei drwsio.
- **Cerdded Cwn – Bryn Hir (bont wedi cau):**
Wedi cychwyn y gwaith. Loriau yn parcio ar y gornel sydd yn berygl.
- **Ffordd Rhiwlas:**
Dim diweddariad.
- **Llwybr Chwarel y Nant:**
Dim diweddariad.
- **Petitiwn – defnydd o Glyphosate gan CBSC:**
15 o fobl wedi ei arwyddo petitiwn yn erbyn y defnydd o Glyphosate.
Y petitiwn wedi ei nodi gan y Cynghorwyr. Y Clerc i ysgrifennu at CBSC i godi pryder trigolion a gofyn am eu polisi ar hyn.
- **Cyfrifon 2018/19:**
Y Clerc yn cael y cyfrifon at eu gilydd. Ffurflen awdit i fod i mewn cyn diwedd y mis ond y Cadeirydd am ofyn am wythnos o estyniad. Marion Pryor am wneud awdit o'r cyfrifon.
- Cyngorwyr yn hapus i ddefnyddio Iona Edwards, Cyfrifydd i wneud slipiau cyflog y Clerc.

6. CYNLLUNIO

0/46296 – Tal y Cafn Farm, Ffordd Penrhyd, Tal y Cafn LL28 5RS

Cais arfaethedig i ddymchwel dau sied dur gwag amaethyddol a chodi adeilad ffrâm dur unllawr Newydd



Dim gwrthwynebiad.

0/46279 – Bodnant Gardens, Bodnant Road, Eglwysbach LL28 5RE
Newid defnydd tir fel lleoliad dros dro ar gyfer cynhwysydd storio.

Dim gwrthwynebiad.

7. ADRODDIAD ARIANNOL

Cyfredol - £7,203.04
Angladdau - £1,968.20
Cadw - £2,072.88

Sieciau:

Cyfredol:

- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £98.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00
- Delyth Wynne (costau swyddfa) - £17.00
- John Emlyn Jones (McAfee Livesafe Anti Virus) - £39.99

Angladdau:

- Wil Williams (torri glaswellt) - £345.00

8. GOHEBIAETH

- E-bost: Ela Fôn Williams, Swyddog Cymuned, Treftadaeth a Diwylliant, Datblygu Cymunedol Gwledig – Diweddarau Arwyddion Dehongli

Y Cadeirydd a Cyng John i gael golwg arno. Syniad i symud yr arwydd dehongli tuag at canol y pentref. Y Cadeirydd i son am y fainc er cof wrth Gwyn Williams.

- E-bost: Einir Jones, Rheolwr Busnes - Clwstwr Ysgolion Cynradd – Diolch am eich cyfraniad ariannol

9. UNRHYW FATER ARALL

• **Goleuadau Stryd:**

Y Clerc i ysgrifennu at CBSC i ofyn am eu polisi ynglyn â goleuadau stryd – ydy hi'n bosib lleihau goleuadau y stryd, y defnydd o LEDs ayyb.

• **Torri glaswellt yn y fynwent:**

Y Cadeirydd i gael gair gyda Wil i ofyn barn.



Cyngor Cymuned

EGLWYS BACH

Community Council

- **Planu coed yn y fynwent:**
Cafwyd trafodaeth - y Cynghorwyr yn teimlo bod digon o goed yno yn barod.
- **Fandaliaeth yn y pentref:**
Cafwyd trafodaeth.
- **Gyrru trwy'r pentref:**
Son wrth yr Heddlu am y broblem.
- **Allt y Rhiw, Ffordd Maenan:**
Tyllau ar y Ffordd – angen sylw.

10. DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF

02/07/19, 03/09/19, 01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.12 o'r gloch.